

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
Nos Iau 18 Mai 2017 am 1830

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Y Cynghorydd Huw Jones

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Mair Jones

Y Cynghorydd Gabrielle Wyn

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Gareth Davies

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Mair Owen Pierce.

1. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2017.

2. Materion yn codi o'r cofnodion

3.1 Cerrig Llwydion – pryderon am goeden sydd yn tyfu rhwng y ffens a'r wal ar ochr y lôn yn malurio'r wal ac yn achosi i gerrig ddisgyn i'r lôn. Y Cyng. Dafydd Owen am drefnu cyfarfod ar y safle gyda swyddog o Gyngor Gwynedd.

3.2 Llwybr beics pentref Llandygai-adroddwyd bod beicwyr sy'n defnyddio'r Lôn Las sy'n mynd drwy'r pentref, yn mynd a'r wîb. Perygl o ddamwain gyda cherddwyr ifanc a henoed y pentref. Cyngor Gwynedd wedi holi am fwy o wybodaeth ynglŷn a'r union leoliad. Y Clerc i ymateb.

3.3 Tynal Tywyll – penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd am unrhyw syniadau/trefniadau oedd ganddynt am agoriad swyddogol i'r dwnnel.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mai 2017'

Cyflwynwyd: E-bost gan Y Pwyllgor Safonau - cyfle i enwebu 'Aelod Cymunedol' ar Bwyllgor Safonau Gwynedd. Aelodau i roi enwau ymlaen i'r Clerc os oes diddordeb.

Cyflwynwyd: E-bost gan Gareth Llwyd- cwyn yn erbyn arwydd 'Tynal Tywyll' sy'n defnyddio'r enw llafar lleol yn hytrach na 'Twnnel Pendinas'. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gwneud cais am y ddau enw gael ei

ddefnyddio. Trafodwyd hefyd cael arwyddion ychwanegol ar y safle, gyda phwt o hanes.

Cyflwynwyd: E-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri – rhybudd o flaen llaw o Adolygiad Ffurff Fer o Ddrafft Adnau Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd- Llythyr gan Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru-cyfle i rannu sylwadau ar rai o faterion y Panel. Y Cynghorwyr i ymateb fel unigolion. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn hapus i fod ar y rhestr postio.

Cyflwynwyd- Llythyr gan Gyngor Gwynedd-yn ystyried cyflwyno Cyfyngiad Cyflymder 40mya yn Nhregarth. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn cefnogi'r cais.

Cyflwynwyd- llythyr gan Parc Cenedlaethol Eryri-cyfle i gael coed afal am ddim. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn hapus i dderbyn 4 coeden.

Cyflwynwyd- Llythyr gan Parc Cenedlaethol Eryri-cyfarfod blynyddol gyda Chynghorau Cymuned yr ardal – unrhyw un sydd a diddordeb mynychu i hysbysu'r Clerc.

Cyflwynwyd- llythyr gan Un Llais Cymru- rhestr o ddyddiadau ar gyfer hyfforddiant

Cyflwynwyd- llythyr gan Un Llais Cymru-hysbysiad o gyfarfod pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor 14.06.17. Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i fynychu.

Cyflwynwyd- llythyr gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd-manylion am eiddo yn Plas y Coed, Porth Penrhyn. Y Clerc i wneud mwy o gopiâu i'w arddangos yn y hysbysfyrddau.

Cyflwynwyd- Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Llwybr Troed Rhif 46 a 50 yng Nghymuned Llandygai) Gwyro Llwybr Cyhoeddus 2017-Rhybudd statudol yn esbonio effaith y ddwy orchymyn. Penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.

5. Gwaith y mis

5.1 Adroddwyd bod bolard pren ar y llwybr tu ôl i'r hen siop wedi pydru. Y Cyng. Dafydd Owen am fynd i edrych ar y safle.

5.2 Tynal Tywyll-yn hynod o boblogaidd ac mae ceir yn parcio ar Allt Cerrig Llwydion , sydd yn gul yn barod. Y Cyng. Dafydd Owen am drefnu cyfarfod ar y safle gyda swyddog o Gyngor Gwynedd.

5.3 Pengamfa- plastr yn disgyn oddi ar y wal. Angen cael prisiau am plastr newydd.

5.4 Trethu hydro cymunedol-ysgrifennu at y Llywodraeth, gofyn wrthynt ail-ystyried sut mae hydro's o'r fath yn cael eu trethu.

5.5 Jac y neidiwr- adroddwyd bod grŵp yn bwriadu casglu'r planhigyn dydd Sul 21.05.17 ac yn ymgynnull yn y Ganolfan yn Tregarth am 3yp.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth- adroddwyd bod y pwyllgor wedi croesawu Mair Jones fel Ysgrifennydd, ond dal yn chwilio am ofalwr a thrysorydd, ac bod yr Ysgol Feithrin wedi penodi dau arweinydd newydd. Ynglŷn a'r adeilad/safle adroddwyd bod llechen angen ei thrwsio ar y tô, ac bod Cyngor Gwynedd am lenwi'r twll yn y maes parcio gyda llwch.

Ysgol Llandygai- adroddwyd bod yr ysgol wedi cael noson bingo llwyddiannus iawn er mwyn codi arian tuag at costau teithio i'r Eisteddfod ym Mhen y Bont ar Ogwr.

7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

7.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Ebrill

7.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

8. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

Cyngor Gwynedd

£5.00

9. Apwyntiad Archwilydd Mewnol

Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i barhau gyda'r gwasanaeth archwilio gan Parry & Co, Rhosneigr.

10. Penderfyniadau Cynllunio

C16/1340/16/LL

Ysgubor y Gelli, Lon y Wern, Tregarth

Codi modurdai i wasanaethu llety gwyliau

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd

C16/1339/16/LL

Ysgubor y Gelli, Lon y Wern, Tregarth

Newid defnydd ysgubor yn uned wyliau

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd

C16/0319/16/HT

Ochr lon ger mynedfa Ystad
Diwydiannol Coed y Parc, Bethesda

Hysbysiad o flaen llaw o waith uwchraddio cyfarpar telathrebu presennol

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd

C17/0200/16/LL

6 Pen y Ffriddoedd, Tregarth
Newid defnydd sied gardd domestig i ddefnydd busnes er mwyn cynhyrchu diod meddwol o fedd

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau

C17/0729/16/LL

Valhalla, Mynydd Llandygai
Dymchwel adeilad gardd presennol a
chodi modurdy newydd unllawr
Penderfyniad: Caniatawyd, gydag
amodau

C17/0344/16/LL

Tir gyferbyn Cwr y Coed, Tregarth
Diwygio amod 1 o ganiatad cynllunio
C15/0087/16/MG
Penderfynwyd: Cais wedi ei gofrestru

12. Ceisiadau Cynllunio

C17/0374/16/LL

The Secret Garden, Nr.The Grand
Lodge, Penrhyn Park, Bangor
Codi estyniad i adeilad allanol ynghyd
a chodi ty gwydr newydd
Penderfyniad: Cefnogi

C17/0373/16/CR

The Secret Garden, Nr. The Grand
Lodge, Penrhyn Park, Bangor
Estyniad i adeilad allanol presennol
Penderfyniad: Cefnogi

C17/0798/16/YA

Fferm Moelyci, Lon Felin Hen,
Tregarth
Codi dau 'polytunnel' plastig ar ffram
fetel
Penderfyniad: Cefnogi

NP3/16/L3E

Tai Newyddion, Nant Ffrancon,
Bethesda
Gosod ffenestr ddormer ar yr
edrychiad ochr
Penderfynwyd: Cefnogi

NP3/16/27

Tir ger Llyn Idwal, Gwarchodfa Natur
Cenedlaethol Cwm Idwal
Codi pont droed newydd ar wely
llechen gyda canllaw dur
Penderfynwyd: Cefnogi

13. Unrhyw fater brys arall

Dim i'w drafod.